**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 01-13 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Mawrth 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1821
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Safonau@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 01-13 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Mawrth 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Mick Antoniw (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Llyr Huws Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Mark Isherwood**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Kirsty Williams**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

## Cyflwyniad

1. Gwneir yr adroddiad hwn i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad[1] ("y Weithdrefn"), mewn cysylltiad â chŵyn yn erbyn Bethan Jenkins AC.

2. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn Rheol Sefydlog 22. Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

(i) mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau bod Aelod heb gydymffurfio:

(a) â Rheol Sefydlog 2;

(b) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau;

(c) â Rheol Sefydlog 5;

(ch) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau;

(d) ag unrhyw god neu brotocol a wnaed o dan Reol Sefydlog 1.10 ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf;

(dd) â Rheol Sefydlog 3; neu

(e) â Rheol Sefydlog 4,

ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi;

(ii) ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a'r ffordd y penderfynodd y Pwyllgor ar ei argymhellion.

[1] Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

## Ystyried y Gŵyn

4. Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau ar ei ymchwiliad i'r gŵyn i'w chael yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Mae'n nodi manylion y gŵyn a chanfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

5. Roedd y gŵyn yn honni bod paragraff 4 (b) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n cynnwys yr egwyddor y dylai Aelodau "bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol" wedi cael ei dorri.

6. Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddydd Mawrth 26 Chwefror 2013 i ystyried adroddiad y Comisiynydd Safonau. Cytunodd y Pwyllgor i drafod y gŵyn mewn sesiwn breifat. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod adroddiad y Comisiynydd yn cynnwys digon o wybodaeth a fyddai'n sail i'w drafodaethau, ac nad oedd angen gofyn am dystiolaeth bellach, yn ysgrifeneidg nac ar lafar.

### Ystyriaeth y Pwyllgor o'i Benderfyniad

7. Yna, trafododd y Pwyllgor a oedd yr Aelod wedi torri un o'r materion o fewn Rheol Sefydlog 22.2(i) a pha gamau, os o gwbl, y dylai gynghori'r Cynulliad i'w cymryd pe bai'n canfod bod yr Aelod wedi torri un o'r materion.

8. Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod dan sylw wedi cydnabod yn llawn fod ei gweithredoedd wedi torri'r Cod Ymddygiad ac mae wedi cydweithredu'n llawn ag ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd Safonau i'r gŵyn. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y mater wedi bod yn destun achos troseddol a dyfarniad llys.

9. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod yr Aelod dan sylw eisoes wedi ymddiheuro'n gyhoeddus mewn cysylltiad â'r ymddygiad a arweiniodd at y gŵyn hon. Mae'r Pwyllgor, hefyd, wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r datganiad personol a ddarparwyd gan yr Aelod dan sylw, sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad y Comisiynydd.

10. Mae'r Aelod dan sylw wedi nodi nad yw am apelio yn erbyn canfyddiadau'r Pwyllgor nac unrhyw sancsiynau a gaiff eu hargymell yn yr achos hwn. Oherwydd hynny, mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl, ac o fewn y cyfnod 10 diwrnod

arferol a nodir ym mharagraff 8.1 o'r Weithdrefn, pan gaiff yr Aelod y mae cwyn yn ei erbyn ddewis cyflwyno apêl i'r Llywydd.

11. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol â chanfyddiadau'r Comisiynydd (paragraff 8 yn ei adroddiad) fod ymddygiad yr Aelod wedi torri paragraffau 4 (b) a 4(g) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

12. Os yw unrhyw Aelod Cynulliad yn torri 'egwyddorion Nolan' o ran uniondeb ac arweiniad o ran ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, barn y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yw bod hyn yn fater difrifol. Mae enw da Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad, a ffydd a hyder y cyhoedd ynddo, yn dibynnu ar y ffordd y mae'r Aelodau yn dangos uniondeb ac arweiniad yn eu gweithredoedd.

**Argymhelliad y Pwyllgor – y sancsiynau sydd ar gael**

13. Mae'r Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod mewn cysylltiad ag ymddygiad personol ac nid safonau ymddygiad penodol mewn cysylltiad â materion ariannol na materion eraill. Dim ond o dan Reol Sefydlog 2.10 mewn cysylltiad â methu â chydymffurfio â Rheol 2: Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau y gall y Cynulliad weithredu'r sancsiwn o wahardd o drafodion y Cynulliad am amser penodol a gwahardd hawliau a breintiau. Felly, y sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor o dan baragraff 7.11 o'r Weithdrefn mewn cysylltiad â'r gŵyn hon yw: bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio ond na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach; neu fod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio, ac y dylid ceryddu'r Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10.

**Argymhelliad**

**Penderfyniad unfrydig y Pwyllgor yw argymell i'r Cynulliad, yn unol â 7.11(iv) o'r Weithdrefn, y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid "ceryddu" yr Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10.**

14. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cyflwyno cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor.

15. Wrth argymell y sancsiwn o geryddu, gobaith y Pwyllgor yw cyfleu neges glir nad yw'n dderbyniol i Aelodau fethu â chydymffurfio.

16. Mae Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol bod y Pwyllgor a'r Comisiynydd Safonau wedi bod yn ystyried y mater o sancsiynau, fel

rhan o'r adolygiad parhaus o Weithdrefnau Safonau'r Cynulliad. Bwriad y Pwyllgor yw ystyried cynigion pendant gan y Comisinydd i ddiweddaru'r gyfundrefn sancsiynau yn y dyfodol agos, a chaiff unrhyw argymhellion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog mewn cysylltiad â hyn eu rhoi gerbron y Cynulliad i'w hystyried.

**Atodiad A**

# <u>CYFRINACHOL</u>

**Oddi wrth:** Gerard Elias QC, y Comisiynydd Safonau

**At:** Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## <u>ADRODDIAD AR YMCHWILIAD FFURFIOL</u>

## <u>Cwyn yn erbyn BETHAN JENKINS AC</u>

### Y gŵyn

1. Ar 17 Hydref 2012, cefais lythyr mewn perthynas â'r Aelod Cynulliad Bethan Jenkins ("yr Aelod"), gan Glerc y Cynulliad Cenedlaethol ("yr Achwynydd"). Dywedodd y Clerk nad oedd yn gweithredu o dan adran 9 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, ond gwnaeth gŵyn yn deillio o ymddygiad yr Aelod fel yr adroddwyd yn y cyfryngau, yn dilyn cael ei harestio gan yr heddlu.

2. Roedd y gŵyn yn honni bod paragraff 4 (b) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ("y Cod") wedi cael ei dorri. Mae'r paragraff hwnnw yn darparu:

   *"Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol."*

3. Adolygais y dystiolaeth a oedd ar gael imi ar y pryd ac roeddwn yn fodlon bod y gŵyn yn dderbyniadwy gan fod gofynion paragraff 3 (i)-(vi) o'r weithdrefn berthnasol, sef y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad (24 Ebrill 2012) ("y Weithdrefn"), wedi cael eu

bodloni. Yn unol â hynny, hysbysais yr Aelod (gan ddefnyddio cyfryngwr) gan baratoi i symud i'r Cam Ymchwilio Ffurfiol.

4. Bryd hynny, cefais wybod bod yr Aelod mewn cyflwr "bregus" o ran iechyd a'i bod yn derbyn cyngor a thriniaeth feddygol. Gohiriais fy ymchwiliad (gan hysbysu'r Achwynydd) hyd nes iddi wella. Drwy lythyr at yr Aelod, dyddiedig 7 Ionawr 2013, ailddechreuais fy ymchwiliad ffurfiol.

## Ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd

5. Gofynnais am y canlynol, ac fe'i darparwyd imi:
    - Manylion am euogfarn yr Aelod ar 19 Rhagfyr 2012
    - Datganiad personol wedi'i lofnodi gan yr Aelod. Hefyd, bu imi gyfweld â hi cyn iddi wneud datganiad drafft, ac ar ôl hynny;

## Y ffeithiau a nodwyd gan y Comisiynydd

6. O'r wybodaeth sydd ger fy mron, rwy'n nodi'r ffeithiau diwrthwynebiad a ganlyn:
    - Yn oriau mân y bore ar 31 Hydref 2012, cafodd yr Aelod ei stopio gan yr heddlu wrth iddi yrru car yn Llandaf, Caerdydd;
    - Yn dilyn hynny, datgelodd prawf fod gan yr Aelod mwy na dwbl y lefel o alcohol a ganiateir yn ei gwaed wrth yrru;
    - Ar 19 Rhagfyr 2012, llediodd yr Aelod yn euog i'r drosedd, sef gyrru o dan ddylanwad alcohol. Cafodd ei gwahardd rhag gyrru am 20 mis a chafodd ddirwy o £750 ynghyd â chostau;
    - Ar adeg y digwyddiad, a chyn hynny, roedd yr Aelod yn wynebu materion personol ac roedd ganddi gyflwr yn gysylltiedig â straen.

**Casgliadau**

7. Roedd y weithred o yrru o dan ddylanwad alcohol a'i hymddangosiad ac euogfarn ddilynol gerbron Llys Ynadon Caerdydd, ynghyd â'r cyhoeddusrwydd anochel yn y cyfryngau yn sgîl hynny, yn ddi-os yn ymddygiad a oedd yn dwyn anfri ar yr Aelodau a'r Cynulliad Cenedlaethol.

8. **Yn unol â hynny, rwy'n canfod bod yr Aelod Cynulliad, Bethan Jenkins, wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, oherwydd:**

    - **Methodd ag ymddwyn yn y fath fodd a fyddai'n tueddu i gynnal a chryfhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Cynulliad. Drwy hynny, bu iddi ddwyn gwarth ar y Cynulliad a'i Aelodau,** yn groes i baragraff 4 (b) o'r Cod**;**

    A hefyd:

    - **Fel deiliad swydd gyhoeddus, methodd â hyrwyddo a chefnogi egwyddorion Nolan drwy ddangos arweinyddiaeth ac esiampl,** yn groes i baragraff 4(g) o'r Cod.

    Felly, rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymdrin â'r achos o dan Reol Sefydlog 22.2(i).

**Gofynion o dan y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion**

9. Gallaf gadarnhau:

    - bod yr Aelod a'r Achwynydd wedi cael copi o'r adroddiad terfynol ac nad oeddent am nodi unrhyw wallau ffeithiol ynddo;

- bod yr Aelod, ar ôl cael gwybod am ei hawl i wneud sylwadau llafar i'r Pwyllgor mewn gwrandawiad llafar, wedi dweud nad oedd am geisio arfer yr hawl honno, ac na fyddai'n gwneud hynny;

- bod yr Aelod, ar ôl cael gwybod am ei hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor o fewn amser penodedig, wedi nodi mai'r unig sylwadau ysgrifenedig yr oedd yn dymuno i'r Pwyllgor eu hystyried oedd ei datganiad wedi'i lofnodi ei hun a roddwyd i'r Comisiynydd, dyddiedig 7 Chwefror ac sydd wedi'i atodi i'r Adroddiad hwn.

- bod yr Aelod, ar ôl cael gwybod am bwerau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 22.9, 22.10 a 22.11, ac am ei hawl i apelio o dan adran 8. 1 o'r Weithdrefn, yn dymuno ildio ei hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor.

**Gwybodaeth ychwanegol**

10. Yn fuan ar ôl cael y llythyr gan y Comisiynydd yn nodi ei fod wedi cael cwyn a oedd yn dderbyniadwy, cyfarfu'r Aelod â'r Comisiynydd a nododd ei bod yn bwriadu cyfaddef i ymddygiad a arweiniodd at ddwyn anfri ar y Cynulliad.

**Gerard Elias QC**

13 Chwefror 2013

**Atodiad B**

Bethan Jenkins AM

A Personal Statement

1. On 19 December 2012 I appeared before the Cardiff City Magistrates Court and pleaded guilty to the following charge:
   Driving while under the influence of alcohol

2. I was sentenced as follows:
   20 month driving, with £700 fine

3. My conviction is something that I will always regret wholeheartedly and I am and will remain deeply sorry for what I have done.

4. On this occasion, I fell well below the standards I expect of myself and I therefore fully understand why, through my actions, I have brought the Assembly into disrepute. Therefore, I accept this charge.

5. I am completely aware and believe deeply that Assembly Members have a big role to play as ambassadors for the institution. While that clearly did not happen on this occasion, it is a belief that I otherwise strive strictly to adhere to.

6. It is for that reason, and because I had fallen below the standards expected of me as an AM – particularly for those who placed their faith in me in returning me to office – that I took the earliest available opportunity to apologise. I chose to make a public apology without waiting for it to become public knowledge or for charges to be laid.

7. I also took the opportunity at the hearing in December to issue a fresh apology, because I wanted to be sure that as many people as possible were aware of the deep regret I feel, and to give my thanks for the hugely comforting support, and many well wishes I had following my arrest.

8. I have played over in my mind many times why I took the course of action that led to my arrest. Shortly before this time I was forced to take a leave of absence for two weeks and received medical help and advice with stress and related issues. Since my arrest I have taken time off from work to be treated for depression, an illness I'm beginning to come to terms with for the first time. Although I have now returned to work, that treatment continues.

9. It has not been easy for me to discuss the issues around my depression, except to say they are deeply personal. It would not aid my recovery to have to go into the matter in great detail here. With hindsight, I had not recognised these problems with my health soon enough. I am hugely grateful to all those who have helped me take on this illness.

10. I do not wish to make excuses. I simply hope this account assists the committee and the Assembly in their deliberations. It is my aim to be as helpful as far as I can in this process.

11. While this period of absence has not been pleasant for me, it has given me time to reflect, particularly on issues of mental health and how they affect my constituents as well as myself. I am resolved in this regard to do more to promote awareness of mental health issues, and to offer to sufferers and campaigners the help in any way I can give as a representative, as many people selflessly supported me through this difficult period.

12. I have now returned to my AM role with a fresh purpose and it is my intention to ensure that safeguarding the reputation of the Assembly sits at the heart of everything I do. I take a meticulous approach to dealing with constituents and their issues, and I aim to continue to work tirelessly in representing them, as well as fully involving myself in the work we do as a legislature.

13. I hope this statement is helpful to the committee, and goes some way to explaining the circumstances around my actions.

Bethan Jenkins AM

Bettan Jenkins 7 February 2013